

lechyd





Heyrn serio

Roedd y teclynnau dur yma â charnau pren yn cael eu defnyddio i atal clwyf rhag gwaedu.

Byddai'r haearn yn cael ei osod yn y tân nes ei fod yn eirias cyn cael ei osod ar y clwyf neu ynddo. Wedyn byddai'r clwyf yn cael ei selio ag olew tar poeth. Roedd gan lawfeddygon lawer o heyrn o wahanol feintiau a siapiau er mwyn trin clwyfau o bob math. Yn ystod brwydrau, pan fyddai'r llawfeddyg yn disgwyl trin llawer o glwyfau, mae'n bosibl y bydden nhw'n gosod yr heyrn i gyd yn y tân gyda'i gilydd, i fod yn barod. Efallai mai dyna darddiad yr ymadrodd 'gormod o heyrn yn y tân'.

Roedd pobl oes y Tuduriaid yn credu bod eu cyrff yn cynnwys pedwar gwlybwr: bustl melyn, bustl du, gwaed a fflem. Roedden nhw'n credu bod gwlybwr gwael, neu ormod ohono neu ddim digon ohono, yn eu gwneud yn sâl. Byddai heyrn serio'n cael

eu defnyddio i godi pothell fel rhan o iachâd, ac wedyn byddai'r bothell yn cael ei ffleimio (ei thorri) i ollwng yr hylif clir ynddo a oedd yn cynnwys y gwlybwr gwael.



Sut rydyn ni'n gwybod am heyrn serio?

Mae heyrn serio wedi'u disgrifio mewn testunau meddygol ac wedi'u darlunio mewn llawysgrifau, ac mae enghreifftiau ar gael mewn amgueddfeydd sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol.



Iechyd

Codwr

Offeryn wedi'i wneud o ddur oedd hwn ac roedd yn cael ei ddefnyddio er mwyn codi sawl rhan o'r corff o'r ffordd pan oedd y llawfeddyg wrthi'n gwneud ei waith.

Byddai codwr yn cael ei ddefnyddio hefyd fel trosol i dynnu dannedd o asgwrn yr ên, drwy wthio'r pig i mewn i soced y dant o dan y dant ei hun.



Sut rydyn ni'n gwybod am godwyr?

Mae codwyr wedi'u disgrifio mewn testunau meddygol ac wedi'u darlunio mewn llawysgrifau. Mae enghreifftiau ar gael mewn amgueddfeydd sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol ac mae llawfeddygon yn dal i ddefnyddio codwyr heddiw.



Iechyd

Gefel

Roedd y teclyn dur yma, sy'n debyg i siswrn, yn cael ei ddefnyddio i godi baw a malurion, fel tameidiau o frethyn neu asgwrn, o glwyf. Roedd y man rhesog y tu mewn i big yr efel yn gafael yn dynn yn yr eitem, hyd yn oed os oedd yn llithrig ac yn waed drosti i gyd.

Yn oes y Tuduriaid, doedd pobl ddim yn gwybod am germau. Wydden nhw ddim bod rhaid cadw offer y llawfeddyg yn hollol lân er mwyn atal heintiadau, ond fe wydden nhw fod offer dur yn haws i'w glanhau nag offer wedi'u gwneud o ddefnyddiau eraill.



Sut rydyn ni'n gwybod am efeiliau?

Mae gefeiliau wedi'u disgrifio ac wedi'u darlunio mewn testunau meddygol. Mae enghreifftiau ar gael mewn amgueddfeydd sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol ac mae llawfeddygon yn dal i ddefnyddio gefeiliau heddiw.



Iechyd

Lansed

Cyllell fach a miniog iawn oedd lansed, wedi'i gwneud o ddur a charn pren arni oedd yn gallu plygu.

Roedd pobl oes y Tuduriaid yn credu bod eu cyrff yn cynnwys pedwar gwlybwr; bustl melyn, bustl du, gwaed a fflem. Roedden nhw'n credu bod gwlybwr gwael, neu ormod ohono neu ddim digon ohono, yn eu gwneud yn sâl. Un iachâd at wlybwr gwael neu at wlybwr gormodol oedd torri gwythïen yn agored â'r lansed, er mwyn i'r gwlybwr gormodol ddod allan yn y gwaed.

Roedd lansedi'n cael eu defnyddio hefyd i ffleimio (torri) cornwydydd a phothelli er mwyn rhyddhau'r crawn neu'r hylif ynddyn nhw, ac at lawdriniaethau cywrain.



Sut rydyn ni'n gwybod am lansedi?

Mae lansedi wedi'u disgrifio ac wedi'u darlunio mewn testunau meddygol Tuduraidd. Mae lansedi ar gael mewn amgueddfeydd sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol.



Iechyd

Trepan

Byddai'r teclyn llawfeddygol yma o ddur a phren yn cael ei ddefnyddio i drin anafiadau i'r pen oedd yn fygythiad i fywyd, am eu bod wedi peri i'r benglog waedu neu chwyddo. Byddai pobl yn marw o'r anafiadau hyn oni bai bod modd gollwng y gwasgedd a oedd yn cael ei greu gan y gwaedu neu'r chwyddo.

Byddai trepan yn cael ei ddefnyddio i lifio cylch o asgwrn o'r benglog. Byddai'r pig yn y canol yn atal y trepan rhag llithro tra oedd yr asgwrn yn cael ei dorri. Byddai'r llawfeddyg yn codi'r ceulad gwaed, y gwaed neu'r hylif a oedd yn creu'r gwasgedd, ac wedyn yn gosod y cylch asgwrn yn ôl yn ei le. Yn olaf, byddai'r llawfeddyg yn ailosod croen y pen ag edau lliain, cyn taenu mêl dros y clwyf a chlymu rhwymyn drosto.

Gallai cleifion cyfoethog iawn ofyn i'r llawfeddyg osod darn arian neu aur i orchuddio'r twll yn eu penglog, gan fod y llawfeddygon yn gwybod bod hynny'n helpu'r asgwrn i wella'n gynt.

Mae gwyddonwyr modern wedi canfod bod arian a mêl yn cynnwys elfennau antiseptig sy'n eich helpu i iacháu.



Sut rydyn ni'n gwybod am drepannau?

Mae trepannau wedi'u disgrifio mewn testunau meddygol Tuduraidd, ac wedi'u darlunio mewn llawysgrifau, ac mae'r llawdriniaeth wedi'i disgrifio mewn disgrifiadau o frwydrau. Mae archaeolegwyr wedi darganfod penglogau â thyllau trepannu ynddyn nhw, lle mae aildyfiant yr asgwrn yn dangos bod pobl wedi goroesi'r driniaeth. Mae rhai o'r penglogau hyn yn dyddio'n ôl i'r cyfnod cynhanes.



Uroscopy Jordan

Byddai'r jar gwydr yma yn cael ei ddefnyddio i gasglu samplau iwrin, er mwyn i'r meddygon edrych arno ac adnabod clefyd y claf.

Roedd pobl oes y Tuduriaid yn credu bod eu cyrff yn cynnwys pedwar gwlybwr: bustl melyn, bustl du, gwaed a fflem. Roedden nhw'n credu bod gwlybwr gwael, neu ormod ohono neu ddim digon ohono, yn eu gwneud yn sâl.

Er mwyn adnabod clefyd, neu anghydbwysedd rhwng y pedwar gwlybwr, byddai meddygon y Tuduriaid yn edrych ar liw'r iwrin, wedyn ei arogleuo, a hyd yn od ei flas. Roedd ganddyn nhw siartiau yn dangos cynifer ag ugain o liwiau gwahanol mewn iwrin, a bydden nhw'n cymharu'r samplau â'r siartiau er mwyn penderfynu beth oedd o'i le. Roedd iwrin o liw melyn golau yn iawn, ond pe bai'r iwrin yn felyn tywyll neu hyd yn oed yn frown roedden nhw'n credu bod y claf yn ddadhydredig a bod angen iddo yfed mwy.

Roedd iwrin coch neu wyrdd yn golygu bod rhywbeth mawr o'i le.

Mae meddygon yn dal i ddadansoddi iwrin heddiw i helpu i adnabod clefydau, ond maen nhw'n gwneud hynny drwy brofion yn y labordy, yn lle meddwl am y lliw, yr aroglau neu'r blas!



Sut rydyn ni'n gwybod am llestri iwrosgopeg?

Mae llestri iwrosgopeg wedi'u disgrifio ac wedi'u darlunio mewn testunau meddygol. Mae ambell siart iwrosgopeg yn bodoli hefyd, ac mae nifer o'r llestri wrosgopeg yn cael eu harddangos mewn amgueddfeydd.



Iechyd

Gwlân ac wy

Byddai gwllân glân yn cael ei fwydo mewn gwynnwy a'i ddefnyddio i orchuddio crafiad neu glwyf bach.

Byddai'n cael ei ddal yn ei le drwy glymu darn o liain drosto, yn debyg i'r rhwymyn modern.

Roedd y gwynnwy yn helpu i atal y gwaedu, ac wrth iddo sychu, byddai'n ffurfio croen dros y clwyf i'w gadw'n lân wrth iddo wella.



Sut rydyn ni'n gwybod am wllân ac wyau?

Mae'r dechneg yma wedi'i disgrifio mewn testunau meddygol o'r oesoedd canol.

